Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog**

**Committee for the Scrutiny of the First Minister**

Carwyn Jones AC
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

20 Awst 2013

Annwyl Brif Weinidog

**Prosiectau Seilwaith Mawr yng Ngogledd Cymru**

Hoffem ddiolch i chi a'ch swyddogion am ddod gerbron y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar 19 Gorffennaf ac am deithio i Theatr y Stiwt yn Rhosllannerchrugog.

Canolbwyntiodd ein sesiwn graffu ar seilwaith economaidd fel ffyrdd, rheilffyrdd, ynni, gwastraff a TGCh. Rydym yn ddiolchgar ichi am ateb ein cwestiynau, yn enwedig y cwestiynau hynny a gyflwynodd aelodau'r cyhoedd drwy Twitter a Facebook. Roedd yn ddull ymgysylltu ffrwythlon iawn i bawb ohonom.

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Clerc/Clerk: Dr Siân Phipps, Ffôn/Tel: 029 2089 8582
E-bost /Email:CraffuPW@cymru.gov.uk

Fel Pwyllgor, rydym yn cydnabod pwysigrwydd cryfhau seilwaith Cymru o ran bod yn uned gydlynol er mwyn gwella ei gallu i gystadlu'n economaidd. Mae'n hollbwysig fod gogledd Cymru yn chwarae rhan lawn yn nhwf economaidd y wlad, ac rydym yn ffyddiog y bydd ein hargymhellion isod yn helpu'r broses honno.

**Trosolwg Strategol**

Gwnaethoch gytuno, er mwyn buddsoddi mewn seilwaith mawr, fod angen i Gymru wneud rhagor i ganfod ffynonellau eraill, fel y Banc Buddsoddi Gwyrdd, er mwyn sicrhau arian cyfatebol ar gyfer cylch nesaf y Cronfeydd Strwythurol, a gwnaethoch dderbyn bod rhaid i Gymru ddechrau symud i gyfnod o drosglwyddo o ddibyniaeth ar Gronfeydd Strwythurol. Credwn y dylai hyn gynnwys targedu i raddau mwy yn y dyfodol gan flaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu seilwaith o fewn fframwaith gofodol cyffredinol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu am nifer y cynlluniau a'r strategaethau sydd ar waith neu sy'n cael eu datblygu ac sy'n ceisio cyflawni'r dull gweithredu hwnnw sydd wedi'i dargedu - gan gynnwys y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, Cynllun Gofodol Cymru, Polisi Cynllunio Cymru, a Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd y bu ichi ddweud na fyddai ar waith tan ar ôl y Bil Diwygio Cynllunio. Gwnaethoch gadarnhau mai Cynllun Gofodol Cymru sy'n parhau i ddarparu'r fframwaith cyffredinol, er ei bod yn bum mlynedd ers iddo gael ei ddiweddaru, cyn i Gynlluniau Sector ac Ardaloedd Menter gael eu cyflwyno. Gwnaethoch sôn hefyd am Lif Cyflawni sy'n ceisio cydgysylltu buddsoddiadau ar draws lefelau gwahanol o lywodraeth.

**Argymhelliad 1:**

**Hoffem ichi egluro sut y bydd yr holl gynlluniau a strategaethau hyn gan Lywodraeth Cymru yn gweithredu'n gydlynol ac yn effeithiol ledled Cymru ac**

**ar draws portffolios y Gweinidogion. Efallai y gallech gyflwyno hyn ar ffurf diagram fel y gallwn weld sut y maent oll yn cyd-fynd â'i gilydd.**

**Buddion Cymunedol**

Un o'r themâu amlycaf a ddeilliodd o'n trafodaethau â chi, ac o'r sesiwn gyhoeddus wedyn, oedd sut y gellid cysoni anghenion cenedlaethol ag effeithiau lleol. Nododd nifer o bobl y pwynt ynghylch sicrhau bod cymunedau lleol yn cael eu cynnwys yn llwyr yn y broses o wneud penderfyniadau, a'u bod yn gallu cael buddion uniongyrchol o ddatblygiadau seilwaith mawr sydd wedi'u lleoli yn eu hardal, er enghraifft drwy daliadau ariannol uniongyrchol neu ynni rhatach, cefnogaeth i brosiectau cadwraeth, neu berchnogaeth ar gynlluniau ynni adnewyddadwy sydd wedi'u lleoli yn y gymuned.

Rydym yn ymwybodol o'r datganiad buddion cymunedol drafft y cytunodd yr diwydiant ynni adnewyddadwy arno yn ddiweddar. Credwn fod angen mabwysiadu dull gweithredu mwy trylwyr a strategol yng nghyswllt seilwaith economaidd mawr, a hynny ar draws ei holl ffurfiau. Gwnaethoch gyfeirio at amrywioldeb y dulliau gweithredu a fabwysiadir gan wahanol gwmnïau ac mewn gwahanol sefyllfaoedd, ond gwnaethoch ymateb yn gadarnhaol i'r syniad o gymunedau lleol yn cael budd uniongyrchol. Gwnaethoch sôn am yr angen i feddwl yn ehangach am y mater pwysig hwn, a defnyddio'r Bil Diwygio Cynllunio newydd i bennu trefniadau newydd.

**Argymhelliad 2:**
**Hoffem wybod sut rydych yn cynnig datblygu meddylfryd a dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod cymunedau lleol yn cael buddion uniongyrchol o bob math o ddatblygiad seilwaith mawr, p'un a yw wedi'i leoli yn eu hardaloedd neu'n effeithio arnynt.**

**Ynni**

Gwnaethoch gyfeirio at ddiffyg pwerau Llywodraeth Cymru dros gynlluniau ynni mawr o'i chymharu â'r Alban a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys pwerau dros y Grid Cenedlaethol a'r gyfundrefn cymorthdaliadau. Gwnaethoch ddatgan bod mwy o bwerau yn hanfodol er mwyn i Gymru ddatblygu dull gweithredu cyfunol a strategol yng nghyswllt ynni yn y dyfodol.

Credwn fod cryn ddryswch ymysg y cyhoedd o ran pwy sy'n gyfrifol am brosiectau ynni mawr, ac rydym yn cefnogi eich galwadau am ddatganoli pwerau i Gymru fel y gellir cael proses gwneud penderfyniadau a gwaith craffu priodol.

Gwnaethom drafod hefyd gynlluniau unigol fel y cynnig ynghylch cyswllt trydan ar waelod y môr rhwng gogledd Cymru a sir Benfro.

**Argymhelliad 3:**
**Nid oeddem yn sicr a oeddech yn datgan eich bod yn cefnogi'r cynnig ynghylch cael cysylltiad cebl ar waelod y môr rhwng gogledd a gorllewin Cymru, ac felly hoffem ichi egluro eich safbwynt o ran y cynnig hwn.**

Yn y sesiwn gyhoeddus ar ddiwedd y cyfarfod, mynegwyd pryderon am gynigion ynghylch Gorsaf Bŵer Tyrbin Nwy newydd yn Wrecsam.

**Argymhelliad 4:**
**Byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro safbwynt Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â datblygu gorsafoedd pŵer newydd yng Nghymru a gaiff eu pweru gan nwy.**

**Trafnidiaeth**

Buom yn sôn am y gwaith o ailddyblu'r rheilffordd o Wrecsam i Gyffordd Saltney yn ein trafodaeth ni ac yn y sesiwn gyhoeddus wedyn. Gwnaethoch sôn y byddai'r cynllun yn cyflymu gwasanaethau rheilffordd o amgylch Wrecsam ac y byddai'n cynorthwyo datblygiad economaidd ar draws y rhanbarth. Eglurodd eich swyddog, James Price, fod oedi sylweddol wedi bod yng nghyswllt y prosiect ond y byddai Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn mynd ati i'w ddatrys. Cyfeiriodd Mr Price at y ffaith nad oes gan Lywodraeth Cymru bwerau gorfodi yng nghyswllt Network Rail. Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn ystyried y prosesau sy'n ymwneud â chymeradwyo'r cynllun, gyda golwg ar sicrhau cytundeb contractiol gwell â Network Rail a gwell gwerth am arian.

Cefnogwn eich ymdrechion i sicrhau y caiff pwerau pellach dros seilwaith y rheilffyrdd eu datganoli, ynghyd ag arian cymesur gan Lywodraeth y DU. Yn y cyfamser, rydym yn ceisio eglurder o ran y graddau y mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r cynllun ynglŷn â'r rheilffordd rhwng Wrecsam a Chyffordd Saltney, a hoffem ragor o fanylion am gynnydd trafodaethau'r Llywodraeth â Network Rail ac amserlen glir ar gyfer y gwaith gweithredu.

**Argymhelliad 5:**
**Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynllun rheilffordd Wrecsam i Gyffordd Saltney i bobl sy'n byw yng ngogledd Cymru, a hoffem weld Llywodraeth Cymru yn dangos arweinyddiaeth, ac eglurder o ran ei diben, wrth fwrw ymlaen â'r cynllun hwn cyn gynted â phosibl.**

Pwysleisiwyd yn y cyfarfod bwysigrwydd coridor yr A494/A55 gan ei bod yn borth i ogledd Cymru, ac yn enwedig yr angen i ddileu'r dagfa bresennol yn Aston Hill.

**Argymhelliad 6:**

**Byddai'n ddefnyddiol cael gwybod pryd y bydd cynllun i ddileu'r dagfa bresennol yn Aston Hill ar yr A494 yn cael ei weithredu.**

Hoffem hefyd ichi barhau i gyflwyno'r achos o blaid moderneiddio rhwydwaith rheilffyrdd gogledd Cymru, yn enwedig i wrthbwyso'r effaith economaidd os bydd teithwyr sy'n defnyddio'r Rheilffordd Gyflym (HS2) i deithio yn ôl ac ymlaen o ogledd Cymru yn gorfod newid yn Crewe. Rhaid i HS2 beidio ag arwain at lai o fuddsoddi ym Mhrif Reilffordd bresennol Arfordir y Gorllewin.

Yn ystod y sesiwn gyhoeddus, cafodd mater ei grybwyll ynglŷn â'r diffyg cyfleusterau parcio a gorffwys ar gyfer gyrrwyr cerbydau nwyddau trwm ar hyd yr A55, sy'n ffordd strategol.

**Argymhelliad 7:**

**A allech nodi sut y bydd cyfleusterau parcio a gorffwys ar gyfer diogelwch gyrrwyr cerbydau nwyddau trwm a phobl eraill sy'n teithio ar hyd yr A55 yn cael eu gwella.**

Pwynt arall a wnaed yn ystod y sesiwn gyhoeddus, ac a fynegwyd yn dda, oedd nad y prif ffyrdd a rheilffyrdd strategol yn unig sy'n deilwng o gael buddsoddiad. Mae cysylltiadau rhwng Aberystwyth a gogledd Cymru a llwybrau teithio eraill ar draws y rhanbarth hefyd yn bwysig at ddibenion busnes a domestig. **Byddem yn falch o gael nodyn pellach sy'n cyflwyno cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd yn yr ardal hon.**

**Datblygu economaidd**

Buom yn siarad am y tair Ardal Fenter yng ngogledd Cymru a phwysigrwydd sicrhau nad yw cwmnïau'n dadleoli o ardaloedd eraill y tu allan i'r ardaloedd hyn.

Buom yn siarad hefyd am y gwaith o gyflwyno Band Eang y Genhedlaeth Nesaf. Yn ystod y sesiwn gyhoeddus a gynhaliwyd ar ôl ein trafodaeth â chi, mynegwyd pryderon na all ardaloedd pwysig fel ystâd ddiwydiannol Wrecsam fanteisio ar gynllun Band Eang Cyflym Iawn BT, a rhwystredigaeth pobl oherwydd nad yw BT yn rhyddhau ardaloedd anodd eu cyrraedd o'r fath yn ddigon cyflym o'i broses o gyflwyno band eang masnachol fel y gall busnesau a thrigolion gael ymyriad cyflym o ffynonellau eraill.

**Argymhelliad 8:**
**Hoffem ichi ddarparu datganiad clir am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod datrysiad cyflym i'r rhwystrau sy'n atal ardaloedd anodd eu cyrraedd rhag cael mynediad at Fand Eang y Genhedlaeth Nesaf.**

Yn ystod y sesiwn gyhoeddus, nodwyd hefyd fod rhaglenni buddsoddi cyfalaf wedi'u tynnu'n ôl yn sydyn mewn cynlluniau adfywio, fel Wrecsam.

**Argymhelliad 9:**
**Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro safbwynt Llywodraeth Cymru o ran ailalinio ei chyllid adfywio a'r goblygiadau i ardaloedd lle y cafodd cyllid ei dynnu'n ôl.**

**Yr amgylchedd**

Yn ystod ein trafodaeth ar lifogydd yng ngogledd Cymru, gwnaethoch gyfeirio at y ffaith ei bod yn bosibl nad oedd Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15, a gyflwynwyd yn 2004, wedi mynd yn ddigon pell i atal llifogydd.

**Argymhelliad 10:**
**Hoffem wybod a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd, a phryd y bydd yn gwneud hynny.**

**Biodanwyddau**

Yn olaf, yn ystod y sesiwn gyhoeddus, gofynnwyd inni am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo gwaith i ddatblygu biodanwyddau yng ngogledd Cymru. **Byddem yn croesawu nodyn gennych ar y mater hwnnw.**

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb i'r pwyntiau yr ydym wedi'u crybwyll. Bydd ein llythyr a'ch ateb yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Yn gywir



David Melding AC
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog